

Adroddiad am:
Ymddiriedolaeth Gwasanaethau
Ambiwlans Cymru
Sut maen nhw'n cefnogi cleifion
argyfwng i gyrraedd yr ysbyty



Fersiwn darllen hawdd



Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn annibynnol. Mae AGIC yn edrych ar yr holl wasanaethau iechyd yng Nghymru.



Mae Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (YGAC) yn gofalu am yr holl ambiwlansys yng Nghymru.



Roedd llawer o bryderon am ba mor hir yr oedd rhaid i bobl aros am ambiwlans.



Edrychodd AGIC ar ba fath o ofal y cafodd bobl pan oedd angen ambiwlans arnyn nhw.



Mae gan Ambiwylans Cymru 3 chanolfan i reoli argyfyngau. Mae'r rhain yn cael eu galw'n **Ganolfannau Cyswllt Clinigol y Gwasanaeth Meddygol Brys.**




Edrychodd AGIC ar:



- Sut mae'r canolfannau yn gweithio.



- Staff yn y canolfannau a sut maen nhw'n cael eu cefnogi i wneud eu swyddi.



Fe wnaethon ni'r gwaith hwn cyn COVID-19. Mae COVID-19 a'r cyfnod clo wedi cael effaith fawr ar wasanaethau.



Dyma ein hadroddiad Darllen Hawdd.

Gallwch chi ddarllen yr adroddiad llawn yma:

www.agic.org.uk



Beth gwnaethon ni



Edrychon ni ar 3 phrif beth:



- Sut y gwnaeth canolfannau benderfyniadau am gleifion



- Staff a sut y gofalir amdanyn nhw



- Sut mae'r canolfannau yn cael eu rhedeg



Siaradon ni â staff a rheolwyr ac fe wnaethon ni arolwg.

Edrychon ni ar lawer o wybodaeth am sut mae'r canolfannau wedi bod yn gweithio.



Dyma'r wybodaeth a gawson ni



Gwneud penderfyniadau dros gleifion



Mae galwadau argyfwng fel **999** yn cael eu hateb gan y canolfannau.



Mae'n rhaid i'r person sy'n derbyn yr alwad benderfynu pa mor ddifrifol y mae'r argyfwng. Mae hyn yn cael ei alw'n **brysbennu**.



Mae galwadau'n cael eu rhoi ar 3 lefel.

COCH

Mae'n bosib y bydd y claf yn marw os nad yw'n cael ei drin yn gyflym. Dylai'r rhan fwyaf o gleifion gael eu gweld o fewn 8 munud.

MELYN

Risgiau a chlefydau difrifol y mae angen eu trin ond ddim mor gyflym â'r cleifion COCH.

GWYRDD

Ddim yn glefyd neu risg ddifrifol. Gallai'r claf gael ei helpu gan feddyg neu weithiwr iechyd proffesiynol arall.



Mae llawer o alwadau.



Mae'r rhan fwyaf o'r galwadau yn FELYN.



Pryderon a gofidion



Mae ambiwlansys a gwasanaethau eraill yn cael eu hanfon at gleifion COCH yn gyflym. Mae hynny yn golygu weithiau nad oes digon o ambiwlansys ar gyfer cleifion MELYN.



Weithiau, mae'n rhaid i gleifion MELYN aros am amser hir iawn.



Mae hyn yn achosi rhwystredigaeth a straen i staff, cleifion a'r bobl sy'n ffonio.



Mae angen trin cyflyrau fel trawiad ar y galon neu strôc yn gyflym i helpu'r claf i wella.

Nid yw hyn yn digwydd bob tro. Weithiau, does dim digon o ambiwlansys i ymateb i alwadau'n gyflym.



Y prif reswm dros hyn weithiau yw ei fod yn cymryd amser hir i'r claf gael ei drosglwyddo i'r ysbyty. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ambiwlansys aros yn hir a does dim digon ohonynt i fynd i argyfyngau newydd.

Dylai Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru:


Feddwl am sut i sicrhau bod cleifion
sydd â:



- Thrawiad ar y galon
- Strôc

yn cael eu trin yn gyflym.

Meddwl am sut y gall ambiwlansys
gyrraedd cleifion MELYN yn fwy cyflym.



Gwirio bod cleifion yn iawn



Gall cleifion MELYN a GWYRDD aros yn hir am ambiwlans neu ymateb arall.



Mae staff y ganolfan yn ffonio'n ôl i wneud yn siŵr eu bod nhw'n iawn.



Os bydd claf yn mynd yn waeth mae'n bosib y bydd angen gweld nhw'n gyflymach.



Pryderon a gofidion



Weithiau, does dim digon o bobl i ffonio cleifion yn ôl i wirio eu bod nhw'n iawn.



Cefnogaeth staff iechyd hyfforddedig ar gyfer y canolfannau



Mae gan y canolfannau staff meddygol hyfforddedig. Gallan nhw fod yn nyrsys neu barafeddygon. Maen nhw'n rhoi cefnogaeth glinigol i'r canolfannau.



Mae'r staff clinigol yn:



- Gwirio'r galwadau sy'n aros am ambiwlans



- Rhoi cyngor am gleifion



- Anfon rhywun i gefnogi'r claf yn lle ambiwlans



- Trin y person dros y ffôn



Gallan nhw benderfynu i roi ymateb mwy brys i'r claf.



Gallan nhw atal ambiwlans rhag mynd at rywun nad oes ei angen.



Pryderon a gofidion



Weithiau dydy cefnogaeth glinigol ddim yn yr un adeilad.



Weithiau does dim digon o gefnogaeth glinigol ac mae hyn yn golygu oedi hir i'r claf ac i'r canolfannau.

Dylai Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru:



- Edrych ar ffyrdd eraill o wirio'r cleifion sydd ar y rhestr aros alwadau
- Edrych ar y ffordd y mae'r ganolfan Gogledd Cymru newydd yn gweithio gyda chefnogaeth glinigol i weld a all canolfannau eraill wneud yr un peth.



Cynllunio ar gyfer amserau prysur iawn



Pan fydd y gwasanaeth ambiwlans yn brysur iawn dydyn nhw ddim yn gallu ymateb i bawb mewn da bryd.



Mae cynllun i wneud yn siŵr bod y cleifion mwyaf brys yn cael eu trin yn gyflym o hyd.



Mae 4 lefel i'r cynllun, ar y lefel waethaf gall ambiwlansys fynd i alwadau COCH yn unig.



Mae hynny'n golygu llai o ambiwlansys ar gyfer cleifion llai difrifol.



Pan fydd hyn yn digwydd, dywedir wrth y staff galwadau beth i'w ddweud wrth gleifion a phobl sy'n ffonio.



Pryderon a gofidion



Nid oedd staff bob amser yn gwybod pam mae'r lefel yn mynd i fyny ac i lawr.



Mae'r cynllun yn dweud bod angen i uwch reolwyr fod yn y ganolfan pan fydd hi'n brysur iawn. Dydy hynny ddim yn digwydd bob tro.



Dydy'r hyn y dywedir wrth y trinwyr galwadau i'w ddweud bob amser yn helpu. Fe hoffen nhw fod yn fwy clir am amserau aros. Byddai hynny yn helpu cleifion a phobl sy'n ffonio i ddeall beth sy'n digwydd.

Dylai Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru:



- Feddwl am roi mwy o wybodaeth am amserau aros i bobl dros y ffôn.
- Sicrhau bod y cynllun i ymdopi gydag amserau prysur yn cael ei ddilyn bob tro.
- Sicrhau bod uwch reolwyr yn bresennol yn y canolfannau pan fydd hi'n brysur iawn.



Ymwybyddiaeth gyhoeddus



Mae ambiwlansys yn wasanaeth argyfwng.



Mae llawer o alwadau i'r gwasanaeth ambiwlans nad ydynt yn argyfyngau.



Mae galwadau nad ydynt yn argyfyngau yn cymryd amser i'w hateb ac o bosib yn golygu bod ambiwlans yn cael ei anfon pan nad oes ei angen.




Mae rhai o aelodau'r cyhoedd yn disgwyl gormod gan y gwasanaeth ambiwlans.



Mae hyn yn golygu:



- Bod pobl yn ffonio'n ôl pan nad oes angen



- Y gall rhai pobl fod yn ymosodol i'r staff galwadau.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dylai Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru:

Gytuno gyda Llywodraeth Cymru pan fydd hi'n iawn i beidio ag anfon ambiwlans at bobl sydd â risg isel.

Meddwl am sut i addysgu pobl am:



- Y gwasanaeth ambiwlans
- Pryd i ffonio 999
- Pryd i beidio â ffonio 999



Gweithlu



Mae'r staff yn y canolfannau yn ymroddedig ac yn gweithio'n galed.



Mae gwaith y canolfannau yn galed ac yn llawn straen.



Pryderon a gofidion



Mae'r mwyafrif o staff yn meddwl nad oes digon o staff i wneud y swydd.



Mae mwy o bwysau ar y staff.

Mae hyn oherwydd bod mwy o alwadau a bod ambiwlansys yn cael eu dal yn yr ysbytai.



Mae llawer o staff i ffwrdd yn sâl. Mae'n bosib bod hynny o ganlyniad i'r gwaith straenus.



Dydy llawer o staff ddim yn hapus yn y gwaith. Dywedodd rhai staff wrthym eu bod yn anhapus gydag ansawdd y gwasanaeth y maen nhw'n gallu ei ddarparu.



Mae llawer o staff yn gadael. Mae hyn yn golygu bod llawer o'r staff yn newydd. Dydy staff newydd ddim yn gwybod y swydd yr un mor dda.



Weithiau, mae'n rhaid i rai rheolwyr wneud mwy nag un swydd oherwydd nad oes digon o staff yn y canolfannau.



Mae prinderau staff yn waeth ar benwythnosau a gyda'r nos.



Dylai Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru:

- Roi cefnogaeth i staff yn y gwaith i wella presenoldeb.
- Cael cynllun da i sicrhau bod digon o staff ar bob sifft.





Syniadau fîm y staff



Nid yw ffonio cleifion a galwyr yn ôl i wirio eu bod nhw'n iawn bob amser yn hawdd oherwydd bod y staff yn brysur iawn.

Gall y galwadau hyn achosi rhwystredigaeth a straen i staff a'r bobl sy'n ffonio.

Dylai Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru:



- Orffen yr adolygiad o sut mae staff yn ffonio cleifion a galwyr yn ôl.
- Meddwl am sut i dalu am fwy o staff i ffonio pobl yn ôl.
- Meddwl am beth mae staff yn ei wneud nawr a sut y gallai eu swyddi fod yn well.
- Meddwl am fwy o ffyrdd i wneud i'r system ffonio'n ôl weithio'n well.
- Edrych ar sut y gall staff rannu eu syniadau ar gyfer y gwasanaeth. Sicrhau eu bod yn cael eu hystyried a dweud wrth y staff am sut rydych chi wedi defnyddio eu syniadau nhw.





Staff y ganolfan a gweithwyr newydd



Mae Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn edrych ar staffio a swyddi.



Ymunodd rhai staff trin galwadau newydd yn ddiweddar ond roedd eu swyddi am chwe mis yn unig.



Roedd rhai staff eraill wedi bod mewn swyddi dros dro yn y gwasanaeth ers amser hir.



Dydy staff ddim yn siŵr beth fydd y newidiadau i'r gwasanaeth.



Dylai Ymddiriedolaeth Gwasanaethau

Ambiwlans Cymru:

Sicrhau eu bod nhw'n:

- Gofyn i staff am y cynllun staff newydd
- Meddwl am y syniadau newydd hyn.



Adnoddau ambiwlans



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud na ddylai Ambiwylansys aros yn hirach na 15 munud mewn ysbytai.



Dywedodd staff wrthym ni:



- Fod ambiwlansys yn cymryd amser hirach mewn ysbytai



- Bod ciw o ambiwlansys weithiau



- Yn aml bod gormod o ambiwlansys mewn ysbytai a dim digon ar gyfer galwadau argyfwng eraill.



Gall canolfannau ofyn i ysbytai i adael i'r ambiwlansys adael. Dydy hynny ddim yn digwydd yn aml.



Ni all ambiwlansys fynd i gleifion newydd os ydyn nhw wedi'u dal mewn ysbytai.

Dylai Ymddiriedolaeth Gwasanaethau

Ambiwlans Cymru:



- Siarad â phawb sy'n cymryd rhan i ddod o hyd i ffordd i atal y ciwiau mewn ysbytai.



Hyfforddiant staff



Mae'r rhan fwyaf o staff wedi gwneud eu hyfforddiant.



Mae'r staff eisiau cael mwy o hyfforddiant i'w helpu nhw i wneud eu swyddi.



Mae'r staff yn pryderu am lai o hyfforddiant ar gyfer gweithwyr newydd.



Does dim digon o hyfforddiant am iechyd meddwl a hunanladdiad.



Dylai Ymddiriedolaeth Gwasanaethau

Ambiwlans Cymru:

- Sefydlu cynllun hyfforddiant i helpu'r staff i wneud eu swyddi.
- Dylai'r bwrdd sicrhau bod y cynllun yn digwydd.



Monitro staff ac arfarniadau



Arfarniadau yw cwrdd â staff a rheolwyr a wirio pa mor dda y maen nhw'n gwneud eu swyddi.



Mae'r rhan fwyaf o staff yn cael cyfarfodydd gyda rheolwyr i wirio sut maen nhw'n perfformio.



Mae'r rheolwyr yn dweud nad oes ganddyn nhw'r amser na'r hyfforddiant i wneud arfarniadau'n dda.



Dylai Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru:

- Sicrhau bod staff a rheolwyr yn cael digon o amser i gwblhau arfarniadau.
- Sicrhau bod rheolwyr yn cael hyfforddiant i wneud arfarniadau.
- Gwirio gyda'r Academi Anfon i Argyfwng Ryngwladol i weld a ellir gwneud unrhyw welliannau i'r canolfannau.



Llesiant a chefnogaeth staff



Meddylodd y rhan fwyaf o staff eu bod yn cael cefnogaeth dda.



Mae cymorth ychwanegol ar gyfer iechyd meddwl.



Gofidion a phryderon



Meddylodd rhai staff nad oedd y swyddfa yr oeddent yn gweithio ynnddi yn lle da.



Meddylodd rhai staff nad oedd ganddyn nhw gyfrifiaduron a chyfarpar da.



Doedd uwch reolwyr ddim bob amser yn bresennol i gefnogi staff yn y canolfannau.

Dylai Ymddiriedolaeth Gwasanaethau

Ambiwlans Cymru:



- Edrych ar y cyfarpar a'r swyddfeydd i sicrhau eu bod nhw'n addas ar gyfer tîm iach o staff.
- Sicrhau bod uwch reolwyr yn cefnogi staff yn y canolfannau.
- Sicrhau y gall staff siarad am eu pryderon os ydyn nhw eisiau.



Sut mae'r canolfannau yn cael eu rhedeg



Roedd y staff yn hapus gyda'u rheolwyr lleol.



Nid oedd uwch reolwyr yn cyfathrebu'n dda â'r staff.



Dylai Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru:

- Sicrhau bod cyfathrebu gwell yn digwydd rhwng uwch reolwyr a staff



Cynllunio ar gyfer pan fydd pethau'n mynd o chwith



Mae gan yr Ymddiriedolaeth Ambiwylans gynllun ar gyfer pan fydd pethau'n mynd o chwith.



Mae'r cynllun yn siarad am y pethau yr oeddem ni wedi'u darganfod, fel:



- Ambiwylansys yn cael eu dal mewn ysbytai



- Dim digon o staff



- Salwch staff



- Problemau gyda'r swyddfeydd



Mae gan y staff ffurflen gyfrifiadurol i adrodd pan fydd pethau'n mynd o chwith.



Gofidion a phryderon



Nid oedd yr Ymddiriedolaeth
Ambiwylans yn meddwl yn ddigon am
hyfforddiant staff.



Nid yw'r holl staff yn gwybod pryd i
adrodd am rywbeth sy'n mynd o
chwith.



Nid oedd staff yn meddwl bod yr
adroddiadau sy'n cael eu cwblhau
pan fydd pethau'n mynd o chwith yn
cael eu harchwilio'n iawn gan reolwyr
yr Ymddiriedolaeth.

Dylai Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru:



- Feddwl eto am y pethau a allai fynd o chwith os na rhoddir hyfforddiant da i staff.
- Sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi'n dda ar adrodd pan fydd pethau'n mynd o chwith.
- Sicrhau bod pawb yn adrodd pethau sy'n mynd o chwith a sicrhau eich bod yn dweud wrth y person beth sydd wedi digwydd ar ôl iddynt adrodd y broblem.



Beth sy'n digwydd nesaf?



Mae angen i Ymddiriedolaeth
Gwasanaethau Ambiwylans Cymru feddwl
am ein hadroddiad.



Mae'n rhaid i'r Ymddiriedolaeth ysgrifennu
adroddiad i ddweud sut y byddant yn
gwneud yr holl bethau rydym ni wedi
dweud sydd angen eu gwella.



Byddwn yn gwirio a fyddan nhw'n
gwneud popeth.



Fe ddaethon ni o hyd i rai pethau y mae angen i ni edrych arnyn nhw eto:



- Oedi gydag ambiwlansys mewn ysbytai.



- Niferoedd staff, hyfforddiant a chadw staff da.